



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline  
**0808 80 10 800**  
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

## Briffiad Cymorth i Ferched Cymru: yn Dilyn Etholiad y Senedd 2021

### Cynnwys

- Cyflwyniad
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru
- Blaenoriaethau Cymorth i Ferched Cymru
- Gweinidogion allweddol
- Casgliad

### Cyflwyniad

Mae canlyniadau etholiad y Senedd 2021 wedi eu cyhoeddi. Arweinir Llywodraeth newydd Cymru a'r Chweched tymor Seneddol gan Lafur Cymru. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ymrwymo drwy ein gweithredoedd i weithio ar draws pleidiau ac ar draws llywodraethau i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn ei holl ffurfiau.

Sicrhodd Llafur Cymru 30 o'r 60 sedd yn y Senedd gan olygu eu bod un sedd yn brin o fwyafrif clir. Er gwaethaf hyn, mae'r Blaid wedi penderfynu llywodraethu heb ffurfio clymblaid. Cadarnhawyd Mark Drakeford yn Brif Weinidog.

Gallwch ddod o hyd i'ch aelodau etholaeth a rhanbarth [yma](#).

Rydym ni wedi ysgrifennu llythyr o groeso i'r holl ASau ac wrthi'n trefnu cyfarfodydd gyda nhw. Os yw unrhyw aelodau o Cymorth i Ferched Cymru yn dymuno i ni godi unrhyw beth gydag ASau, yn enwedig eu cynrychiolwyr lleol/rhanbarthol, neu yn dymuno cymorth gennym ni i gyfarfod â nhw eu hunain, cysylltwch â [JordanBrewer@welshwomensaid.org.uk](mailto:JordanBrewer@welshwomensaid.org.uk).

### Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Roedd [manifesto](#) Llafur Cymru'n amlinellu nifer o ymrwymadau'n ymwneud â VAWDASV. Yn benodol roeddem yn croesawu'r ymrwymadau canlynol:

1. Cryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod yn y stryd ac yn y gweithle yn ogystal ag yn y cartref.
2. Ehangu hyfforddiant ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth 'Gofyn a Gweithredu' a 'Paid Cadw'n Dawel'.



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline  
**0808 80 10 800**  
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

3. Ymgorffori Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd, gan sicrhau addysg gynhwysol LHDTQ+ i'n plant a'n pobl ifanc.
4. Gwneud Cymru y lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw.

Gwnaeth bob plaid ymrwymiadau mewn perthynas â dileu VAWDASV. Bydd gwaith trawsbleidiol yn parhau'n hanfodol ac edrychwn ymlaen at weithio ar draws pleidiau ac ar draws Llywodraethau i gyflawni'r nodau hyn a mwy. Llunio ni ddogfen yn cymharu manifestos ar bob ymrwymiad pleidiol y gallwch ei darllen [yma](#).

### **Blaenoriaethau Cymorth i Ferched Cymru**

Cyn yr etholiad cyhoeddus ni [ddogfen maniffesto](#), a gydlynwyd mewn partneriaeth gyda'n haelodau, yn amlinellu ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Gallwch ddarllen crynodeb un dudalen o'r blaenoriaethau hyn yma [\[ENG\]](#) [\[CYM\]](#).

Fel mater o frys byddwn yn dechrau gweithio ar y canlynol gan eu bod i gyd yn sensitif o ran amser yn eu ffordd eu hunain:

- **Sicrhau Strategaeth VAWDASV Genedlaethol ar draws llywodraethau.**
  - Daw'r strategaeth genedlaethol i ben eleni. Rhaid i'r strategaeth newydd fod yn uchelgeisiol, a chynnwys camau mesuradwy sy'n rhychwantu llywodraethau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Rhaid cael strwythur llywodraethu gadarn yn genedlaethol ac yn lleol i lywio gwaith datblygu, cyflwyno a monitro gweithrediad y strategaeth.
- **Cyflwyno model cyllido diogel a chynaliadwy ar gyfer yr holl sector VAWDASV arbenigol ar draws Cymru.**
  - Mae COVID-19 wedi dangos bod angen i wasanaethau dderbyn cyllid diogel a chynaliadwy nawr yn fwy nag erioed er mwyn gallu ymateb a chynllunio ar gyfer anghenion ac amgylchedd newidiol. Wrth i'r sector cymorth arbenigol lywio drwy adladd y pandemig a gweithio i liniaru unrhyw ddifrod pellach, bydd cyllid diogel yn sicrhau y gall mynediad barhau at loches, gwasanaethau trais rhywiol i oroeswyr newydd a hanesyddol, ymarfer ar sail trawma, cymorth therapiwtig, gwaith atal, ymyriadau â chyflawnwyr a chymorth yn y gymuned. Mae cyllid cynaliadwy yn golygu cynaladwyedd cymorth VAWDASV arbenigol ac yn dangos ymrwymiad i ddileu VAWDASV, nid ymateb rheoli argyfwng yn unig. Darllenwch ein hadroddiad Cyflwr y Sector diweddaraf sy'n egluro pam fod angen model cyllido cynaliadwy ar y sector, a sut y gellir ei gyflawni [\[ENG\]](#)[\[CYM\]](#).
- **Cefnogi goroeswyr na chânt ofyn am gyllid cyhoeddus.**



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

**0808 80 10 800**

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email



**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

- Mae'r Ddeddf Cam-drin domestig (2021) wedi methu yn ei photensial i ddiogelu a chefnogi pob goroeswr, waeth beth yw eu statws mewn fudo. Mae'n bryd i Gymru ddatblygu datrysiad i gefnogi goroeswyr na chânt ofyn am gyllid cyhoeddus, a gwireddu ei honiadau ei bod yn genedl sy'n cynnig lloches. Mae angen i hyn gynnwys llety diogel, darpariaeth mewn lloches gydag awdurdodau lleol yn gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i gefnogi goroeswyr na chânt ofyn am gyllid cyhoeddus.

### Gweinidogion allweddol

Mae gan y gweinidogion canlynol faterion yn ymwneud â'r sector VAWDASV yn eu portffolios.

- Jane Hutt – Y Gweinidog Cyfiawnder I (*Bydd VAWDASV yn dal i eistedd dan Jane Hutt AS*)
- Hannah Blythyn - Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
- Julie James - Y Gweinidog Newid Hinsawdd (*Bydd Tai yn dal i eistedd dan Julie James AS*)
- Jeremy Miles - Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
- Eluned Morgan – Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Julie Morgan - Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lynne Neagle – Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Mae'r holl weinidogion a'r dirprwy weinidogion i'w gweld [yma](#).

### Casgliad

Mae Llafur Cymru wedi gosod ymrwymadau yn eu maniffesto i gryfhau'r strategaeth VAWDASV, ehangu Gofyn a Gweithredu, ymgorffori Addysg Perthnasoedd a Rhyw yn y cwricwlwm newydd a gwneud Cymru y lle mwyaf diogel i fenywod yn Ewrop. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod hyn yn cynnwys yr *holl* fenywod sy'n byw yng Nghymru, ac yn ymrwymo i weithio gyda'r Llywodraeth newydd, goroeswyr a'n haelodau i sicrhau bod y blaenoriaethau yn ein dogfen maniffesto ninnau'n cael eu cyflawni.

---

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Jordan Brewer, Swyddog Polisi ac Ymchwil drwy ebost:

[JordanBrewer@WelshWomensAid.org.uk](mailto:JordanBrewer@WelshWomensAid.org.uk)